Llwybr Cyflogedig: Ymrwymiadau ysgolion gyflogi

- Talu'r aelod o staff ar bwynt 1 y raddfa gyflog athro heb gymhwyso yn llawn amser am gyfnod y rhaglen
- Blwyddyn 1 – darparu amserlen o tua 50% cyflogaeth a 50% o amser TAR (astudio ar-lein, addysgu dan oruchwyliaeth a gweithgareddau yn yr Ysgol)
- Rhyddhau eich myfyriwr ar gyfer ail brofiad Ysgol 6 wythnos yn nhymor yr haf ym mlwyddyn 1.
- Blwyddyn 2 – darparu amserlen o 70% o addysgu dosbarth prif ffrwd annibynnol gydag arsylwadau ffurfiol misol a mentora wythnosol. Sicrhau profiad o ddau gyfnod oedran yn olynol dros ddwy flynedd.
- Adnabod Mentor dosbarth. Sesiynau mentora wythnosol wedi'u hamserlennu, arsylwi rheolaidd ac asesu ffurfiol. Darparu amser ar gyfer hyfforddiant.
- Nodi uwch aelod o staff fel Cydlynydd Ysgol i arwain darpariaeth y Brifysgol Agored. Darparu amser ar gyfer hyfforddiant a gweithgaredd sicrhau ansawdd.
- Cefnogi'r defnydd o IRIS Connect ar gyfer arsylwi addysgu o bell ar-lein trwy ffilmio gwersi a gweithio gyda thiwtor ymarfer.

Mae **ysgolion uwchradd** yn gymwys i dderbyn cyfraniad cyflog o 50% neu 100% o bwynt 1 graddfa gyflog athrawon heb gymhwyso bob blwyddyn. **Nid yw ysgolion cynradd yn gymwys ar gyfer y cyfraniad cyflog.** Maent yn gyfrifol am sicrhau rhyddhau'r myfyriwr ac unrhyw gostau cysylltiedig.

Cefnogir cost astudio myfyriwr cyflogedig gan grant hyfforddi llawn a delir yn uniongyrchol i'r brifysgol. Mae Partneriaeth AGA y Brifysgol Agored yn gwneud cyfraniad ariannol tuag at gefnogaeth mentora.

The Open University
Y Brifysgol Agored
Wales Cymru

TAR-Cymru@open.ac.uk